Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cyfarfod Caëedig

Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018

15.00 – 15.40

Prifysgol Abertawe

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro Iwan Davies (yn y gadair) William Callaway Nia Elias Yr Athro Jerry Hunter Gwilym Dyfri Jones Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Gareth Pierce Llinos Roberts Yr Athro Hywel Thomas Ieuan Wyn
Sylwedydd:	Angharad Lloyd Williams (Grŵp Llandrillo Menai)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	Dr Haydn E Edwards Dr Rhodri Llwyd Morgan

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan yr Athro Iwan Davies. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
3. Polisi Buddsoddi'r Coleg	3.1 Cyflwynwyd polisi buddsoddi'r Coleg gan y Cofrestrydd. 3.2 Nodwyd bod y polisi wedi ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Nodwyd ymhellach bod sawl elusen yng Nghymru yn mabwysiadu safbwynt moesegol cyn gryfed â hwn. 3.3 Cafwyd trafodaeth ar nifer o agweddau gan gynnwys geiriad yr agweddau moesol. 3.4 Nododd y swyddogion, o ystyried swm cymharol fychan y buddsoddiad dan sylw, y dylai'r Bwrdd ddod i benderfyniad terfynol a buan ar y mater. 3.5 Cytunwyd i gyflwyno datganiad gwerthoedd y Coleg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr nesaf ac, yn y cyfamser, gellid symud ymlaen i fuddsoddi yn unol ag argymhelliad yr ymgynghorwyr.	Datganiad gwerthoedd y Coleg i'r BC	20 Mawrth 2019

4. Penodi Rheolwr Datblygu Addysg Bellach	4.1 Cyflwynwyd yr argymhelliad i benodi Rheolwr Datblygu Addysg Bellach gan y Prif Weithredwr. 4.2 Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio £150,000 o arian wrth gefn dros gyfnod o dair blynedd i gyllido'r swydd. 4.3 Yn ystod y drafodaeth nodwyd: • yr egwyddor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyllid digonol ar gyfer gweithgareddau newydd • priodoldeb, neu beidio, defnyddio cyllid o'r gronfa wrth gefn yn achlysurol • Pryderon bod cylch gorchwyl y Coleg yn ehangu ac nad oedd cefnogaeth ariannol • Pryderon am lwyth gwaith y staff wrth ehangu • Colli tir ym maes addysg uwch 4.4 Gan fod gofyn i'r Coleg gynyddu ei weithgareddau i gefnogi'r Cynllun Gweithredu ôl-16 yn 2019/20 awdurdodwyd y swyddogion i weithredu ar sail yr argymhelliad pe ystyrid hynny yn angenrheidiol.		
5. Cynllun Strategol	5.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr amserlen ar gyfer paratoi a chytuno cynllun strategol newydd. 5.2 Cyflwynir cynllun drafft i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 20 Mawrth 2019 ar gyfer cymeradwyaeth derfynol ar 25 Mehefin 2019.	Cynllun Strategol drafft i'r BC	20 Mawrth 2019
6. Sylwadau wrth gloi	6.1 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith. 6.2 Diolchwyd i staff Prifysgol Abertawe am eu cymorth gyda threfnu'r cyfarfod.		